# Canllawiau i newyddiadurwyr sy'n adrodd ar drais yn erbyn menywod yn ystod COVID 19.

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

## Cyflwyniad:

Bydd cadw pellter cymdeithasol a hunanynysu yn effeithio'n sylweddol ar fenywod a phlant sy'n profi trais a chamdriniaeth. Yn anffodus, nid yw'r cartref yn lle diogel i lawer o fenywod a phlant ledled y wlad sy'n byw gydag effaith camdriniaeth – iddyn nhw bydd hwn yn gyfnod arbennig o frawychus. Gwaetha'r modd, gwyddom o adroddiadau cynnar, gwybodaeth o wledydd eraill a phandemigau blaenorol y bydd achosion o drais a cham-drin yn codi yn ystod achos o COVID 19.

Mae gan y cyfryngau gyfle unigryw a phwerus i effeithio ar y ffordd y mae'r gymdeithas – gan gynnwys drwgweithredwyr, goroeswyr a'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u cymunedau – yn derbyn negeseuon ynghylch camdriniaeth a thrais yn ystod y cyfnod hwn.

Rydym am weithio gyda newyddiadurwyr yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau bod y negeseuon ledled Cymru am drais a cham-drin yn cael gymaint o effaith gadarnhaol â phosibl.

**Pwyswn ar newyddiadurwyr i ystyried y Gair i Gall canlynol, pwyntiau sy'n nodi'r hyn y Dylech ei Wneud a'r hyn Na Ddylech ei Wneud wrth adrodd ar yr achosion hyn.**

## Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

I gael gwybodaeth cyfrinachol, cyngor neu gymorth ynglŷn â cham-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod, gali unrhyw un gysylltu â'r llinell gymorth Byw Heb Ofn mewn unrhyw iaith, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos drwy...

| | |
|---|---|
| Ffôn | 0808 80 10 800 |
| Testun | 07860 077333 |
| E-bost | info@livefearfreehelpline.wales |
| Gwe-sgwrs | https://gov.wales/live-fear-free/contact-live-fear-free |

For more information, please visit https://gov.wales/live-fear-free/contact-live-fear-free

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

# Canllawiau i newyddiadurwyr sy'n adrodd ar drais yn erbyn menywod yn ystod COVID 19.

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

## Gair i Gall - Dylech Wneud y canlynol, os gwelwch yn dda:

- Cynnwys gwybodaeth am Linell Gymorth Byw Heb Ofn mewn unrhyw erthygl sy'n ymwneud â cham-drin domestig a / neu drais rhywiol.
- Cynnwys manylion gwasanaethau cymorth lleol yn yr ardal lle rydych yn adrodd. Er bod gwasanaethau unigol yn addasu'r ffordd y maen nhw'n gweithio yn unol â rheoliadau COVID 19, mae llawer ohonynt yn parhau i fod ar agor ac yn medru darparu cymorth.
- Pwysleisio bod heddluoedd ledled Cymru yn parhau i ymateb i alwadau cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mewn argyfwng, dylai dioddefwyr ffonio 999 a gallant bwyso 55 am gefnogaeth dawel.
- Cadw mewn cof bob amser pa mor frawychus yw'r cyfyngiadau symud i'r rhai sy'n ynysu gyda'u drwgweithredwr, neu i oroeswyr hanesyddol sydd â mynediad cyfyngedig i'w rhwydweithiau cymorth arferol. Mae Cymorth i Ferched Cymru bob amser yn hapus i siarad â newyddiadurwyr os oes angen gwybodaeth neu ganllawiau arnynt ynghylch stori sy'n ymwneud â cham-drin domestig a/neu drais rhywiol – cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

## Gair i Gall - Peidiwch â Gwneud y canlynol, os gwelwch yn dda:

- Cyfeirio at ddynladdiadau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwn fel 'llofruddiaethau Coronafeirws'. Nid COVID 19 yw achos y farwolaeth, y drwgweithredwr ydyw.
- Defnyddio iaith sy'n beio'r dioddefwr wrth drafod neu gyfiawnhau trais neu gamdriniaeth yn ystod y pandemig, er enghraifft bod y dioddefwr yn "plagio'r" drwgweithredwr. Nid yw COVID 19, nac unrhyw effeithiau negyddol a gaiff ar unigolion a theuluoedd, byth yn esgusodi nac yn cyfiawnhau trais neu gamdriniaeth.
- Cyfiawnhau ymddygiad y drwgweithredwr, er enghraifft ei fod/bod "o dan straen" neu "wedi'i (g)wthio i'r eithaf" oherwydd y pandemig. Mae yna wasanaethau cymorth arbenigol sy'n medru cynorthwyo drwgweithredwyr neu'r rheini sy'n pryderu am eu hymddygiad yn ystod y cyfnod hwn, megis Respect UK. Gall fod yn ddefnyddiol i gyfeirio at y rhain mewn erthyglau lle bo'n briodol.